Pwyllgor Menter a Dysgu
Enterprise and Learning Committee
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Ieuan Wyn Jones AC
Dirprwy Brif Weinidog Cymru a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Lesley Griffiths AC
Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

21 Ionawr 2011

Annwyl Ieuan a Lesley

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu: Gweithredu Rhaglen Adnewyddu’r Economi**

Ar ran y Pwyllgor Menter a Dysgu, hoffwn ddiolch i chi am ateb y llythyr a anfonais atoch ar 26 Tachwedd 2010 mor brydlon. Roedd y llythyr hwnnw’n cynnwys casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor a oedd yn deillio o’i waith craffu ar ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at weithredu, monitro a gwerthuso Rhaglen Adnewyddu’r Economi.

Rydym yn falch eich bod wedi derbyn pump o’r 14 o argymhellion a wnaed gennym, yn ogystal â derbyn pump o’r argymhellion eraill mewn egwyddor. Yn benodol, rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu’r agenda sgiliau.

Fodd bynnag, rydym yn amlwg yn pryderu eich bod wedi gwrthod derbyn y pedwar argymhelliad sy’n weddill, a hoffem ddeall eich rhesymau dros hynny’n well. Mae ein pryderon wedi’u hamlinellu isod. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i’r pwyntiau hyn wrth roi tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar i’r Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhelir ar 17 Chwefror 2011, pan fyddwn yn trafod Rhaglen Adnewyddu’r Economi.

**Argymhellion 1 a 2**

Prif neges argymhellion 1 a 2 oedd ymateb i’r dystiolaeth a gawsom gan fusnesau a oedd wedi drysu ynghylch pa gymorth gan y Llywodraeth oedd ar gael iddynt yn dilyn newidiadau polisi. Roeddem hefyd am bwysleisio mai ond ychydig o gyfathrebu a fu rhwng y Llywodraeth a diwydiant ynghylch natur y newidiadau polisi hynny. Fe’n synnwyd yn enwedig gan y diffyg gwybodaeth sydd ar wefan y Llywodraeth (er ein bod yn nodi ac yn croesawu’r cynnydd a

Dr Sian Phipps
Clerc y Pwyllgor/Committee Clerk
Tel: 029 20 898582
Fax: 029 20 898021
Sian.phipps@wales.gsi.gov.uk

wnaed ar y mater hwn ers cyhoeddi ein hargymhellion); yr ansicrwydd ynghylch sut i ddatblygu hunaniaeth brand er mwyn marchnata Cymru ar lefel ryngwladol, a'r diffyg dilyniant rhwng hen strategaeth datblygu economaidd y Llywodraeth a'i strategaeth newydd.

**Byddem yn ddiolchgar, felly, pe byddech yn gwneud sylwadau pellach ar y trefniadau trosiannol a oedd ar waith ym mis Gorffennaf 2010, yn dilyn cyhoeddi Rhaglen Adnewyddu'r Economi, a'r trefniadau sydd ar waith i roi cymorth i fusnesau ar hyn o bryd; ar sut y mae gwybodaeth am y cymorth hwn yn cael ei rannu â'r sector; ac ar yr amserlen ar gyfer cyflawni hyn.**

**Argymhelliad 3**

Wrth ymateb i'n trydydd argymhelliad, sef y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi rhagor o bwyslais ar annog masnacheiddio mewn perthynas ag ymchwil i gynnyrch gwerthadwy, ac y dylai osod targedau ar gyfer y canran o Werth Ychwanegol Crynswth a gaiff ei gynhyrchu drwy ymchwil a datblygu, rydych yn honni bod ymchwil a datblygu yn ffordd wael o fesur arloesedd. Teimlwn fod y datganiad hwn yn gwrthddweud y ffaith bod strategaethau economaidd blaenorol Llywodraeth Cymru wedi dilyn neu fonitro gweithgareddau ymchwil a datblygu i'r union berwyl hwn. (Er enghraifft, defnyddiwyd "Gwariant Mewnwladol Crynswth ar ymchwil a datblygu fel canran o Werth Ychwanegol Crynswth" fel dangosydd yn yr adroddiad 'Cymru: Economi yn Ffynnu')

**Hoffem wybod, felly, sut yr ydych yn bwriadu targedu a monitro effaith gweithgareddau'r Llywodraeth sy'n ceisio annog arloesi. Yn ogystal, hoffem i chi egluro sut y bydd y Llywodraeth yn annog y math o arloesi a fydd yn ateb galw'r farchnad fyd-eang, yn ogystal ag annog arloesi anymarferol.**

**Argymhelliad 5**

Gwrthodwyd argymhelliad 5 gennych, sef y dylid *ystyried* rhinweddau sefydlu marchnad fondiau ar gyfer economi Cymru a banc cymuned fusnes yng Nghymru. Efallai fod hwn yn gyfeiliornad yn y broses ddrafftio, gan eich bod yn dweud hefyd eich bod yn ystyried *pob* opsiwn wrth geisio gwella'r sefyllfa o ran darparu cyllid i fusnesau.

Teimlwn y dylai Rhaglen Adnewyddu'r Economi fod o fudd i Gymru gyfan. Yn sgil hyn, er mwyn cwrdd ag anghenion rhai cymunedau, teimlwn fod angen i'r system ariannol fod yn fwy hygyrch a hyblyg. Mynegwyd y pwynt hwn yn gryf hefyd yn ystod ein hymchwiliad i rôl mentrau cymdeithasol yn economi Cymru.

Fe'n synnwyd gan eich ymateb i'n hargymhelliad, oherwydd gwnaed y cynnig i sefydlu marchnad fondiau ar gyfer economi Cymru gan Gadeirydd Bwrdd Cynghori Cymru Ddigidol, a gafodd ei benodi gan Lywodraeth Cymru.

Dr Sian Phipps
Clerc y Pwyllgor/Committee Clerk
Tel: 029 20 898582
Fax: 029 20 898021
Sian.phipps@wales.gsi.gov.uk

**Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn gallu egluro'ch ymateb i Argymhelliad 5, a rhoi rhagor o fanylion am yr opsiynau gwahanol yr ydych yn eu hystyried.**

**Argymhelliad 7**

Cyfeiriodd tystion a roddodd dystiolaeth i'n hymchwiliad at nifer o enghreifftiau o bartneriaethau rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ar gyfer darparu gwasanaethau band eang. Rydym yn argymell y dylid *ystyried* y modelau hynny ar gyfer darparu rhwydwaith band eang y genhedlaeth nesaf yng Nghymru. Unwaith eto, gwrthodwyd ein hargymhelliad gennych er i chi ddweud y byddech yn ystyried *pob* model fasnachol ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau band eang.

**Ni allwn weld sut y byddai cytuno i ystyried partneriaethau rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel modelau darpariaeth yn mygu arloesedd, nag yn cael ei ystyried yn gam rhagnodol. Byddem yn ddiolchgar, felly, pe byddech yn egluro ar ba sail y lluniwyd eich ymateb i Argymhelliad 7.**

I gloi, rydym yn derbyn mai newydd ddechrau y mae'r broses o weithredu Rhaglen Adnewyddu'r Economi. Fodd bynnag, os yw Cymru am barhau i feithrin a chefnogi amgylchedd mwy ffafriol ar gyfer twf busnes, credwn fod angen newid sylweddol o ran diwylliant Llywodraeth Cymru, a bod angen i'r Llywodraeth fabwysiadu agweddau mwy creadigol wrth ymgymryd â'i gwaith.

Rydym yn ddiolchgar i chi am barhau i gyfrannu at waith y Pwyllgor. Edrychwn ymlaen at drafod y materion hyn gyda chi yn ystod y sesiwn graffu ar 17 Chwefror.

Yn gywir



**Gareth Jones AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Dr Sian Phipps
Clerc y Pwyllgor/Committee Clerk
Tel: 029 20 898582
Fax: 029 20 898021
Sian.phipps@wales.gsi.gov.uk